

**2018 Rhif (Cy. )**

**2018 No. (W. )**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A55  
(Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Pen  
Caledog) i Gyffordd 8 (Cyfnewidfa  
Ael y Bowl), Ynys Môn)  
(Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a  
Cherddwyr Dros Dro) 2018

The A55 Trunk Road (Junction 3  
(Pen Caledog Interchange) to  
Junction 8 (Ael y Bowl  
Interchange), Isle of Anglesey)  
(Temporary Prohibition of  
Vehicles, Cyclists & Pedestrians)  
Order 2018

*Gwnaed* 7 Tachwedd 2018  
*Yn dod i rym* 12 Tachwedd 2018

*Made* 7 November 2018  
*Coming into force* 12 November 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Pen Caledog) i Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 12 Tachwedd 2018.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 3 (Pen Caledog Interchange) to Junction 8 (Ael y Bowl Interchange), Isle of Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2018 and it comes into force on 12 November 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 12 Tachwedd 2018 ac sy'n dod i ben pan

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A55 London to Holyhead Trunk Road;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi.

### Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

### Cymhwysu

6. Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

7 Tachwedd 2018

*Richard Morgan*

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

### YR ATODLEN

Y darn o gerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 250 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir) hyd at bwynt 250 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pen Caledog), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 4 a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 3.

Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 260 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg Nant) hyd at bwynt 380 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 7

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 12 November 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

### Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

### Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

7 November 2018

*Richard Morgan*

Head of Planning, Asset Management and Standards  
Welsh Government

### SCHEDULE

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from a point 250 metres east of Junction 4 (Dalar Hir Interchange) to a point 250 metres west of Junction 3 (Pen Caledog Interchange), including the westbound entry slip road at Junction 4 and westbound exit slip road at Junction 3.

The length of the eastbound and westbound carriageway of the trunk road that extends from a point 260 metres west of Junction 6 (Nant Turnpike Interchange) to a point 380 metres east of Junction 7 (Cefn Du Interchange), including the eastbound entry

(Cyfnewidfa Cefn Du), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 6 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 7.

Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 370 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 7 (Cyfnewidfa Cefn Du) hyd at bwynt 200 metr i'r dwyrain o Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 7 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8.

and westbound exit slip roads at Junction 6 and the eastbound exit and westbound entry slip roads at Junction 7.

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 370 metres west of Junction 7 (Cefn Du Interchange) to a point 200 metres east of Junction 8 (Ael y Bowl Interchange), including the eastbound entry slip road at Junction 7 and eastbound exit slip road at Junction 8.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55  
(CYFFORDD 3 (CYFNEWIDFA PEN CALED OG)  
I GYFFORDD 8 (CYFNEWIDFA AEL Y BOWL),  
YNYS MÔN) (GWAHARDD CERBYDAU,  
BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Pen Caledog) a Chyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl), Ynys Môn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a ganlyn, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 19:00 o'r gloch ar 12 Tachwedd 2018 ac yn weithredol yn ysbeidiol hyd 05:00 o'r gloch ar 28 Tachwedd 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darnau o'r A55 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y trefniadau ar gyfer y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd. Yn ystod yr oriau gwaharddedig, ni fydd modd i lwythi annormal ddefnyddio'r llwybrau dargyfeiriol a bydd arwyddion yn cynghori cerbydau o'r fath i barcio mewn cilfannau dynodedig.

Dyma'r amserlen a ddisgwylir ar gyfer y gwaith wrth y cyffyrdd amrywiol:

- Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir) i Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pen Caledog) (tua'r gorllewin) – 19:00 o'r gloch ar 12 Tachwedd i 05:00 o'r gloch ar 13 Tachwedd 2018.
- Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg Nant) i Gyffordd 7 (Cyfnewidfa Cefn Du) (tua'r dwyrain) – dros nos (19:00 – 05:00 o'r gloch) o 14 – 16 Tachwedd 2018.
- Cyffordd 7 (Cyfnewidfa Cefn Du) i Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl) (tua'r dwyrain) – dros nos (19:00 – 05:00 o'r gloch) o 19 – 21 Tachwedd 2018.
- Cyffordd 7 (Cyfnewidfa Cefn Du) i Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg Nant) (tua'r gorllewin) – dros nos (19:00 – 05:00 o'r gloch) o 26 – 28 Tachwedd 2018.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 3 (PEN  
CALED OG INTERCHANGE) TO JUNCTION 8  
(AEL Y BOWL INTERCHANGE), ISLE OF  
ANGLESEY) (TEMPORARY PROHIBITION OF  
VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS)  
ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 3 (Pen Caledog Interchange) and Junction 8 (Ael y Bowl Interchange), Anglesey.

It is expected that the following prohibitions, which will be signed accordingly, will come into force at 19:00 hours on 12 November 2018 and operate intermittently until 05:00 hours on 28 November 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A55 described in the Schedule to this Notice. The alternative route arrangements are also described therein. During the prohibited hours abnormal loads will be unable to use the diversion routes and signs will advise such vehicles to park up at designated lay-bys.

The timetable for works at the various junctions is expected to be as follows:

- Junction 4 (Dalar Hir Interchange) to Junction 3 (Pen Caledog Interchange) (westbound) – 19:00 hours on 12 November to 05:00 hours on 13 November 2018.
- Junction 6 (Nant Turnpike Interchange) to Junction 7 (Cefn Du Interchange) (eastbound) – overnight (19:00 – 05:00 hours) from 14 – 16 November 2018.
- Junction 7 (Cefn Du Interchange) to Junction 8 (Ael y Bowl Interchange) (eastbound) – overnight (19:00 – 05:00 hours) from 19 – 21 November 2018.
- Junction 7 (Cefn Du Interchange) to Junction 6 (Nant Turnpike Interchange) (westbound) – overnight (19:00 – 05:00 hours) from 26 – 28 November 2018.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

#### **YR ATODLEN**

##### **Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro**

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 250 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir) hyd at bwynt 250 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pen Caledog), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 4 a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 3.

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 260 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg Nant) hyd at bwynt 380 o fetrau i'r dwyrain o Gyffordd 7 (Cyfnewidfa Cefn Du), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 6 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 7.

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 370 o fetrau i'r gorllewin o Gyffordd 7 (Cyfnewidfa Cefn Du) hyd at bwynt 200 metr i'r dwyrain o Gyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael y Bowl), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 7 a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8.

#### **Y Llwybr Arall**

Y llwybr arall o bob cyffordd fydd mynd ar yr A5 tua'r dwyrain neu tua'r gorllewin, fel y bo'n briodol, i ailymuno â'r A55 wrth y gyffordd nesaf.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government

#### **SCHEDULE**

##### **Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians**

The length of the A55 westbound carriageway that extends from a point 250 metres east of Junction 4 (Dalar Hir Interchange) to a point 250 metres west of Junction 3 (Pen Caledog Interchange), including the westbound entry slip road at Junction 4 and westbound exit slip road at Junction 3.

The length of the A55 eastbound and westbound carriageway that extends from a point 260 metres west of Junction 6 (Nant Turnpike Interchange) to a point 380 metres east of Junction 7 (Cefn Du Interchange), including the eastbound entry and westbound exit slip roads at Junction 6 and the eastbound exit and westbound entry slip roads at Junction 7.

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from a point 370 metres west of Junction 7 (Cefn Du Interchange) to a point 200 metres east of Junction 8 (Ael y Bowl Interchange), including the eastbound entry slip road at Junction 7 and eastbound exit slip road at Junction 8.

#### **Alternative Route**

The alternative route from all junctions will be via the eastbound or westbound A5, as appropriate, to rejoin the A55 at the next junction.